# DEG O FLOCIAU

## YNGLŶN Â'R GÂN HON
Ten green bottles

## THEMÂU/TESTUNAU
Cyfri/mathemateg

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM
Ieithoedd, Llafaredd a Chyfathrebu
Mathemateg a Rhifedd

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISGYBLAETH

**Cwmpas Lleisiol**
9fed




**Ffurf Lleisiol**
Unsain

**Elfennau Cerddorol**
Gwead a thraw

## Ymarferion Cynhesu

- Gofynnwch i'r dysgwyr sefyll mewn cylch a gwthio'u hysgwyddau ymlaen ac yn ôl fesul un ac yna gyda'i gilydd. Yna, dylent osod eu dwylo ar eu hysgwyddau a'u cylchdroi ymlaen ac yn ôl.
- Gofynnwch i'r dysgwyr adleisio rhai o'r geiriau sy'n ymddangos yn y gân - 'blociau', 'bwrdd' neu unrhyw rif rhwng un a deg. (Rhowch gyfle i unigolion alw a gweddill y grŵp i adleisio.)
- Dangoswch rythm nodweddiadol y gân:




## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyd-dydau mynegiannol•*

## Adborth

**Adnodd: Sut i wella**

Dangoswch y dysgwyr trwy osod targedau sut i wella. Targed addas ar gyfer efallai y bydd rhai dysgwyr yn gweithio arnynt cywirdeb y rhythmau dotiog. I eraill, efallai mai canolbwyntio arno cywirdeb traw wrth ymateb. Dangoswch eich hun neu chwaraewch y recordio. Ar ôl rhoi amser i gwella, gwirio bod targedau wedi wedi ei gyrraedd.

© CanSing Cymru 2022

**GRADING: HAWDD**

# DEG O FLOCIAU

## Addysgu a Dysgu

1. Chwaraewch recordiad o bennill cyntaf y gân amryw o weithiau. Dylai'r dysgwyr ganolbwyntio ar nodi'r geiriau pwysig e.e. deg, blociau, bwrdd, a chipio.
2. Anogwch y dysgwyr i wrando'n astud ar bennill cyntaf y recordiad ychydig o weithiau, ac yna ymuno trwy glapio a llafarganu'r rhythm.
3. Chwaraewch y recordiad, neu ei chanu fesul brawddeg, gyda'r dysgwyr yn ymateb. Peidiwch symud ymlaen nes bod yr holl ddysgwyr yn hyderus ac yn ymateb gyda'r traw a'r rhythm cywir.
4. Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r pennill cyntaf, tanlinellwch fod y rhythm a'r traw union yr un peth ym mhob pennill, ond gyda geiriau gwahanol - yn benodol, y rhifau.
5. Gwrandewch, gyda'r dysgwyr, ar ail bennill y recordiad. Gwrandewch eto, ac ymunwch trwy glapio a llafarganu'r rhythm.
6. Gofynnwch i'r dysgwyr ymuno â'r recordiad o bennill 1 a 2. Sicrhewch fod y dysgwyr yn dilyn y llinell felodig yn gywir.
7. Anogwch y dysgwyr i ddysgu pennill 1 a 2 o'r côf a defnyddiwch ystumiau corfforol gwahanol i gofio geiriau gwahanol, gan annog y dysgwyr i ganu cymalau cyfan ar un anadl.
8. Cyflwynwch weddill y penillion.
9. Pan fydd yr holl ddysgwyr yn gyfarwydd ac yn hyderus â'r gân, anogwch hwy i berfformio'r gân gyfan yn ddigyfeiliant, gan ganu cymalau cyfan ar un anadl ac i gynnal y nodau hir ar ddiwedd pob brawddeg.

## Sgiliau Cyfannol

- Rhennwch y dysgwyr yn grwpiau llai. Wedi rhoi amser iddynt ymarfer, gofynnwch i'r grwpiau unigol berfformio'r gân er mwyn i weddill y dosbarth gael gwrando.
- Arbrofwch gydag ystod y ddynmaeg a'i amrywio. Defnyddiwch ddynmaeg gwahanol (cryf - pennill 1, tawel - pennill 2). Peidiwch annog gweiddi wrth ganu'n gryf, ac atgoffwch y dysgwyr i ddefnyddio'u hanadl i gefnogi eu lleisiau wrth ganu'n gryf.
- Anogwch y dysgwyr i eirio'n glir wrth berfformio a sicrhewch nad ydynt yn brathu nodau byr.

© CanSing Cymru 2022